

WHAT CAN YOU DO?

HYSBYSEBU'CH GWEITHGAREDDAU A'CH DIGWYDDIADAU ...



Gan eich bod yn darllen hwn, gallaf gymryd yn ganiatol bod gennych ddiddordeb brwd mewn Addysg Grefyddol eisoes. Gan hynny - ac rwy'n ymddiheuro i'r asyn yn Shrek am ddwyn ei eiriau - rwy'n gwybod eich bod yn credu yn y bôn fod 'Pawb yn caru Addysg Grefyddol!' - pe baent ond yn deall union natur ein pwnc gwych ... Mae Dathlu AG yn gyfle euraid i ennyn cefnogaeth i faes curicwlaidd sy'n cael yr un effaith â Heineken - mae'n cyrraedd y rhannau hynny nad yw meysydd a phynciau eraill yn eu cyrraedd....Ond, fel y gwyddom i gyd, waeth pa mor ardderchog yw'r digwyddiadau rydym yn bwriadu eu trefnu i agor llygaid y byd ac i ddathlu'r posibiladau lu y mae Addysg Grefyddol yn ei gynnig i'n plant a'n pobl ifanc, os ydynt am ddwyn ffrwyth, rhaid i bobl gael gwybod amdanynt. Ni fyddai Shakespeare yn rhan o'n curicwlwm pe na bai wedi tynnu sylw at y ffaith ei fod yn dipyn o giamstar ar drin geiriau ac adnabod y natur ddynol!

Annog pobl i gymryd rhan

Felly rydych wedi cynllunio'ch digwyddiadau a'ch gweithgareddau difyr. Sut fyddwch chi'n gwneud yn siŵr bod pobl, gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am benderfyniadau yn ein cymdeithas, yn cymryd rhan neu'n dod draw? Does dim rhaid i hyn fod yn waith llafurus na beichus- y cyfan y mae angen i chi ei ystyried yw'r posibiladau y mae'ch sefyllfa'n eu cynnig. Dechreuwch yn lleol ond ewch ymlaen i gynnwys y sir, y wlad - a'r tu hwnt hyd yn oed!

Dechreuwch gyda'ch disgyblion - mae'n allweddol eu hysgogi i ystyried y posibiladau (a'r hwyl) sydd ynghlwm wrth yr hyn y mae'ch cymuned/yr ysgol yn ei gynllunio. Rhowch her iddynt fod yn 'swyddogion cyhoeddusrwydd'. Rhowch bapur siart tro a phinnau ysgrifennu iddynt ac mae'r cwestiwn allweddol 'Sut allwn ni gael pobl i gefnogi digwyddiadau Dathlu AG?' yn ffordd o ennyn eu diddordeb o'r dechrau un.

Gwell na hynny hyd yn oed, gofynnwch i rai pobl sy'n frwdfrydig dros AG fod yn rhan o'ch grŵp cynllunio - rydym i gyd yn gwybod bod gan bobl ifanc y ddawn i feddwl yn ddychmygus- a drwy wneud hyn, maent yn rhan annatod o'r hyn sy'n mynd ymlaen, gan ddangos bod pob plentyn yn bwysig o safbwynt AG!

Tynnu sylw at eich digwyddiadau

- Byddai pennawd bachog yn fuddiol iawn ac yn ennyn diddordeb. Gall cwestiynau allweddol helpu yn y cyswllt hwn hefyd:
 - ★ *AG – yr unig obaith i ddyfodol dynol ryw?*
 - ★ *Bu farw AG – hir oes i Richard Dawkins!'*
 - ★ *Dim AG? Dim empathi!*
 - ★ *AG - Cyfaill gorau gwyddoniaeth*
 - ★ *Ydych chi'n ddynol? Gall AG eich helpu i gael hyd i'r ateb!*
 - ★ *Beth yw'r pwynt?*
 - ★ *AG? Beth all ei gynnig i'n cymuned?*
- Er gwell neu er gwaeth, rydym yn byw mewn byd lle bydd 'Ci yn brathu dyn' bob amser yn llai cyffrous na 'Dyn yn brathu ci'. Byddaf yn dweud wrth fy nosbarth yn aml na welwch chi byth mo'r pennawd 'Athro'n cael gwers wych gydag 8S' ond y bydd y pennawd 'Disgybl

difater yn ymosod ar athrawes â chas bensiliau,' bob amser yn gwerthu papurau newydd! Rŵan, nid wyf yn awgrymu bod angen trais i hybu'n hachos ond mae angen i ni ennyn diddordeb. Mae ein pwnc yn berthnasol, yn ddadleuol ac yn ymdrin â'r natur ddynol ac yn canolbwyntio ar y cwestiynau mawr, sylfaenol - a gellir manteisio ar hyn wrth sicrhau bod ein paratoadau gofalus ar gyfer Dathlu AG yn ennyn diddordeb.

- Beth am ofyn a gewch chi ddefnyddio'r manau hynny lle mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cyhoeddi canlyniadau arholiadau a ffeiriau haf? Fel arfer mae gan grwpiau ffydd hysbysfyrdau, cylchlythyrau a hyd yn oed gwefannau i dynnu sylw. Bydd CYSAG yn cyfarfod mewn pob mathau o lefydd, yn adeiladau awdurdod lleol yn aml - beth am ofyn a gewch chi godi arddangosfa yn egluro'r hyn yw AG a CYSAG a'r hyn y mae CYSAG yn ei wneud i gyfrannu at Ddathlu AG? Mae gan y Cyngor AG daflenni ardderchog sy'n rhad ac am ddim ac sy'n egluro natur a gwerth AG [i'w cael gan info@religiouseducationcouncil.org – gofynnwch am y daflen 'Beth yw AG?']

Pŵer y disgybl

- Tra bydd eich disgyblion yn brysur yn awgrymu dulliau i hysbysebu digwyddiadau, rhochw gamerâu iddynt. Ar ôl gofalu bod ganddynt ganiatâd i'w cyhoeddi, gofynnwch iddynt dynnu lluniau i'w defnyddio at ddibenion cyhoedduswydd. Gellid cysylltu hyn â'r gwaith cynllunio a gallai gynnwys fflmio myfyrwyr, athrawon, llywodraethwyr etc yn ymateb i gwestiynau generig fel 'Pam AG beth bynnag?' neu rywbeth â mwy o ddychymyg! Wedyn, bydd gennych y deunydd i ennyn diddordeb grŵp ehangach.

Rhieni – a'r tu hwnt!

- Ewch ati i ymestyn y cylch ymhellach - caniatewch i'r disgyblion genhadu ymhlith eu rhieni. Drwy gyfuno hyn â chylchlythyr yr ysgol a/neu'r wefan bydd y neges yn cael ei chlywed y tu hwnt i giatiau'r ysgol yn barod. Anfonwch lythyr yn egluro cynlluniau AG a gofynnwch am gymorth/syniadau/deunyddiau/cyfranwyr.
- Cyn gwneud hynny, ydych chi wedi medru dwyn perswâd ar yr uwch dîm rheoli fod hyn yn

ddigwyddiad gwerth chweil i'r ysgol ei gefnogi? Mae digon o dystiolaeth i ddangos y gall AG gyfrannu at gydlyniant cymdeithasol felly mae'r amrywiaeth gyfoethog o gynrychiolwyr o'r gymuned leol, gan gynnwys aelodau ffydd, y gall y digwyddiad hwn eu cynnwys/eu denu, fod yn gyfle euraid i ysgolion feithrin dealltwriaeth a dysgu pobl i uniaethu ag eraill. Fel rhan o'u harolygiadau, mae Ofsted hefyd yn ystyried sut y mae ysgolion yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol - tynnwch sylw at hyn wrth drafod eich digwyddiad gyda'r UDRh a gofynnwch iddynt am ragor o awgrymiadau o ran pwy all gyfrannu a phwy y dylid eu gwahodd. Dyma gyfle da i danlinellu potensial AG i gyfrannu'n sylweddol at amcanion a gweledigaeth yr ysgol.

- Gallwch hefyd gyflwyno'ch cynllunio gerbron y llywodraethwyr i godi proffil AG a manteisio ar gefnogaeth, syniadau a chyhoedduswydd posibl o gyfeiriad arall. Ar wefan y Cyngor Addysg Grefyddol cewch becyn cymorth i athrawon AG sy'n delio â'r cyfryngau (ewch i www.religiouseducationcouncil.org). Gall eich helpu chi i drefnu cyhoedduswydd.

Deunyddiau cyhoedduswydd

Ar ôl dechrau cynllunio, meddyliwch am ehangu'r cyhoedduswydd y tu hwnt i'r ysgol gan gynnwys eich cymdeithas leol. Casglwch luniau, dyfyniadau, fflmiau, crynodebau o'r digwyddiadau ac ewch ati i wneud taflenni a deunyddiau i'w rhoi ar wefannau, unwaith eto gyda chymorth cydweithwyr o bosibl (yn enwedig y rheini a chanddynt sgiliau Technoleg Gwybodaeth da) a disgyblion. Mae'r tîm Dathlu AG wedi cynllunio logo trawiadol (ewch i www.celebratingre.org 'What is available?' i lawrlwytho hwn ac adnoddau eraill – taflenni, PowerPoint, poster gwag).



Cyngor Ymgynghorol ar Addysg Grefyddol [CYSAG] a chymunedau ffydd yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion

- Bydd gan y Cyngorau Ymgynghorol ar Addysg Grefyddol ddiddordeb mawr yn yr hyn y bydd ysgolion yn ei wneud a byddant, o bosibl, yn gallu'ch helpu chi i gysylltu â grwpiau ffydd a chred yn eich ardal. Edrychwch i weld a oes ganddynt wefan.
- Bydd hyn nid yn unig yn eich helpu chi i gynllunio ond mae'n bosibl y byddant hefyd yn awyddus i ddod i'ch digwyddiad neu i'w hyrwyddo. Mae'n bosibl y byddant yn cynllunio'eu digwyddiadau eu hunain hefyd ac y byddant yn croesawu cefnogaeth gan ysgolion.
- Cynhelir yr Wythnos Rhyng-ffydd yn ystod mis Tachwedd 2010. Mae'r digwyddiad hwn yn debygol o arwain at syniadau a chysylltiadau ond mae'n bosibl y bydd hefyd yn faes y gellir ei ddatblygu fel rhan o Ddathlu AG yn ystod y mis Mawrth canlynol (darllenwch yr erthygl ar weithgareddau rhyng-ffydd yn yr adran Dathlu AG "What can you do?" ar y wefan). Ewch i www.interfaith.org.uk i ddysgu rhagor am yr 170 o gyrff – mae'n bosibl y bydd ganddynt ddiddordeb yn eich digwyddiadau.
- Ffordd wych arall o hybu AG yn eich ysgol fyddai cynnwys grwpiau ffydd lleol yn eich gwaith cynllunio ac fel gwesteion, a gallai hynny hefyd wella cydlyniant cymdeithasol.



Beth arall gall CYSAG ei wneud i gael sylw?

CYSAG yn ei wneud. Mae modd hysbysebu canolfannau ffydd, lleoliadau awdurdod lleol ac ysgolion drwy gyfrwng gwefan yr awdurdod a dulliau electronig eraill o anfon gwybodaeth i ysgolion. Mae CYSAG swydd Gaerhirfryn er enghraifft, wedi gofyn i bob aelod wneud o leiaf un peth i gefnogi *Dathlu AG* - gallai hyn fod mor syml ag anfon gwybodaeth am y digwyddiad cenedlaethol drwy gyfrwng y wefan a gofyn am syniadau ar gyfer y CYSAG neu gynllunio digwyddiad gydag aelodau eu grwpiau. Bydd gan glerc CYSAG ragor o awgrymiadau (darllenwch yr erthygl am weithgareddau CYSAG yn adran "What can you do?" *Dathlu AG* ar y wefan).

Syniadau ar gyfer grwpiau ffydd

- Mae llawer o'r syniadau a nodwyd eisoes yn addas i grwpiau ffydd eu defnyddio. Yn aml iawn, bydd grwpiau mewn gurdwaras, eglwysi, mosgiau etc grwpiau yn chwilio am ffyrdd i estyn allan i'w cymunedau lleol.
- Rhaid i bob plentyn yng Nghymru a Lloegr gael Addysg Grefyddol ac mae cysylltiad â phobl 'go iawn' o'u cymunedau ffydd yn cyfoethogi hyn. Gall plant o'r cymunedau hyn fod yn genhadon effeithiol iawn o ran codi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau ar ddwy ochr y ffens.
- Mae cyrff rhyng-ffydd lleol hefyd yn bartneriaid defnyddiol a gellir cael hyd iddynt ar y rhyngrwyd.
- Gall sefydliadau neu draddodiad cred cenedlaethol hefyd roi cyngor.
- Y peth pwysig yw cynllunio rhywbeth yn eich cymuned y gellir ei rannu â brwdfrydedd gan y byddai hynny'n helpu i ennyn diddordeb plant mewn Addysg Grefyddol. Byddai cynnal bore agored gan groesawu ysgolion lleol er mwyn i'r disgyblion archwilio, holi a chael atebion llawn cystal â 'llwybr ffydd' mwy heriol.
- Ysgrifennwch at eich ysgolion lleol, heb anghofio'r ysgolion arbennig a'r colegau 6ed dosbarth, os oes modd, i'w gwahodd [ynghyd ag ychydig o ddisgyblion efallai] i gyfarfod cychwynnol i drafod y cynlluniau. Ar ôl trefnu'r digwyddiad, anfonwch lythyr at Bennaeth AG

[Uwchradd] neu'r Cydgysylltydd AG [Cynradd] neu at 'yr athro sydd â chyfrifoldeb dros AG' gan gynnwys bonyn ateb neu gyfeiriad e-bost gan fod athrawon bob amser yn chwilio am gysylltiadau da â'u grwpiau ffydd a chred lleol.

Byddwch yn uchelgeisiol!

Peidiwch â bod yn swil - chwiliwch am bobl leol, estynnwch wahoddiad i enwogion o bob math ddod i ddatlu gyda chi ond cofiwch wneud hynny mewn da bryd gan fod dyddiaduron y bobl hyn yn llenwi'n fuan. Mae'n bosibl bod esgob, AS neu seléb yn byw o fewn pellter gyrru i'r ysgol - dywedwch wrth y disgyblion am eu gwahodd gan egluro beth y maent yn ei wneud. Drwy hyn, byddwch yn hyrwyddo AG yn yr ysgol, hyd yn oed os na ddaw'r bobl i'r digwyddiad. Byddai dolen i wefan eich ysgol yn eu helpu i ddysgu mwy. Anfonwch daflen hefo'r gwahoddiad: info@religiouseducationcouncil.org i roi darlun ehangach iddynt o'r hyn yw AG heddiw - mae rhai'n dal i gysylltu'r pwnc â'r darlun diflas sydd ganddynt o'u dyddiau ysgol! Unwaith eto, byddai teitl bachog/cwestiwn allweddol yn abwyd da!

Gweithio gyda'r cyfryngau

- Drwy gydol y broses, peidiwch ag anghofio gwerth yr hyn rydych yn ei hyrwyddo. Mae AG wedi dringo o gategori Sinderela dros y blynyddoedd diwethaf ond mae llawer yn dal yn camddeall y pwnc.
- Nid yw golygyddion/cynhyrchwyr yn debygol o gynhyrfu ryw lawer o glywed eich bod yn rhan o ddigwyddiad AG. Soniwch am y cwestiwn allweddol, y maes dadleuol, yr ymwelydd enwog, y cysylltiadau cymunedol neu'r disgyblion sydd wrth wraidd y digwyddiad.
- Mae'n bosibl bod eich gorsaf radio eisoes yn annog pobl ifanc i fod yn newyddiadurwyr a bod gan rai ysgolion uwchradd gyfleusterau darlledu - gofynnwch i'r newyddiadurwr sy'n delio ag addysg yn eich papur lleol beth sydd ar gael yn eich ardal. Rhowch ddigon o rybudd i'r papur lleol neu'r orsaf radio ac ysgrifennwch grynodeb o'ch cynlluniau. Canolbwyntiwch ar yr agwedd gymunedol a'r tro dadleuol neu heriol rydych wedi'i gynnwys.

- Gallech drefnu panel 'Pawb a'i Farn' o bobl ifanc sydd â ffydd ac aelodau CYSAG neu brosiect rhwng yr ysgol a grŵp ffydd lleol i gefnogi AG ym maes dinasyddiaeth e.e. 'Pwy ddylai gynorthwyo pobl oedrannus?' gan gynnig straeon i bapurau newydd a'r radio a chyfle i dynnu llun, er mwyn ennyn diddordeb darllenwyr a gwrandawyr.
- Unwaith eto, mae modd defnyddio/addasu pecyn cymorth athrawon AG i ddelio â'r cyfryngau wrth ymdrin â nifer o agweddau ar gyhoeddusrwydd.



Dydych chi ddim ar eich pen eich hun!

Drwy gydol tymor yr hydref a'r gwanwyn bydd cymorth ar gael ar wefan Dathlu AG gan gynnwys calendr o ddigwyddiadau yn dangos beth y mae pobl eraill yn ei drefnu. Gallwch ofyn am gael gwybodaeth drwy fynd i'r hafan <http://www.celebratingre.org/> a chewch gylchlythyr bob mis i hybu ac i ysbrydoli'ch prosiectau a'ch digwyddiadau.

Diolch yn fawr

Mae Addysg Grefyddol dda yn ffynnu ar gefnogaeth y cymunedau o amgylch yr ysgolion. Mae byd addysg yn newid. Mae Michael Gove yn galw am gyrsiau sy'n 'ysgogi ac yn ehangu'r meddyliau'n disgyblion'. Mae AG dda yn gwneud y ddau. Drwy hyrwyddo AG drwy Ddathlu AG byddwch yn sicrhau bod y pwnc hanfodol hwn yn cael ei ddeall a'i werthfawrogi mwy.

